UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Tâl a Phensiynau

# Cyflogau Athrawon 2018-19

## (athrawon sydd yn gyflogedig dan delerau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol)

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Cyflogau Athrawon

Mae penderfyniadau'r Llywodraeth am godiad cyflog i athrawon ar gyfer Medi 2018 wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) 2018.

Fe fydd **isafswm ac uchafswm** statudol y Brif Ystod Cyflog yn codi 3.5 % a'r Ystod Cyflog Uwch yn codi 2 %%.

Fe fydd **isafswm ac uchafswm** lwfansau CAD ac AAA yn codi 2%.

Eleni eto, mae UCAC wedi cyd-weithio gydag undebau eraill (ASCL, NAHT, NEU a VOICE) i greu taflen gyngor ar y cyd am weithredu codiad cyflog 2018-19:

http://athrawon.com/images/ymgyrchu/2018-19%20Pay%20Scale%20Points%20-%20National%20Joint%20Advice%20CYMRU%20Online%20RD.pdf

Gweler yr Atodiad am bwyntiau cyflog ar gyfer 2018-19, yn cynnwys:

- codiad cyflog o 3.5% ar gyfer athrawon ar y brif ystod cyflog
- codiad cyflog o 2% ar gyfer pob ystod cyflog arall
- codiad cyflog o 2% ar gyfer lwfansau
- codiad cyflog o 1.5% ar gyfer lwfansau Ystod Cyflog Arweinyddiaeth.

Ers i Lywodraeth San Steffan gyflwyno newidiadau i'r strwythur cyflogau athrawon mae'r undebau wedi cyd-weithio gyda'r awdurdodau lleol a Chonsortia yng Nghymru i sicrhau bod ganddynt bolisïau cyflog enghreifftiol i roi i ysgolion. Mae'r undebau wedi pwyso am gysondeb ar draws Cymru ac am y telerau gorau posib o fewn y rheolau statudol presennol. Byddwn yn parhau i wneud hyn eleni.

## Polisi Cyflog

Dylid adolygu polisi cyflog yr ysgol **yn flynyddol** mewn ymgynghoriad â'r staff a'u cynrychiolwyr, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y gofynion statudol perthnasol ac yn hollol gyfredol o ran prosesau'r ysgol, gan gynnwys y broses rheoli perfformiad.

## Tâl yn ôl Perfformiad

- Ers Medi 2014 mae penderfyniadau cyflog yn seiliedig ar berfformiad. Bydd trefn rheoli perfformiad 2017-18 yn rhan allweddol o'r broses o benderfynu ar gyflog unigolion ar gyfer mis Medi 2018.
- Nid oes unrhyw sicrwydd o dan trefniadau statudol y Ddogfen, o ddatblygiad cyflog, hyd yn oed pan fydd perfformiad yr athro yn dda ond **dylai "perfformiad da parhaus fel y'i diffinnir gan bolisi cyflog yr ysgol unigol olygu y gall athro dosbarth ..disgwyl datblygu i frig ei ystod cyflog perthnasol."** (Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol).
- Yng Nghymru, rydym wedi cael cytundeb y dylai perfformiad da arwain at ddatblygiad cyflog lle nad yw athro wedi cyrraedd brig ei ystod cyflog.

## Prif Ystod Cyflog

Erbyn hyn mae'r Llywodraeth yn pennu isafswm ac uchafswm ar gyfer **prif ystod cyflog.**

- Yn weithredol o Fedi 2018, mae'r Llywodraeth wedi pennu:
  - codiad o 3.5% i isafswm y brif ystod cyflog
  - codiad o 3.5% i uchafswm y brif ystod cyflog

Mae'r mwyafrif o ysgolion Cymru wedi sefydlu trefn o **chwe phwynt penodol** ar y prif ystod cyflog yn gysylltiedig â'r hen Brif Raddfa gan ddilyn arweiniad yr undebau ac Awdurdodau Lleol (gweler yr Atodiad).

**Mae'r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog o 3.5% i bawb ar y Brif Ystod Cyflog.**

## Ystod Cyflog Uwch

Erbyn hyn, mae'r Llywodraeth yn pennu isafswm ac uchafswm ar gyfer **ystod cyflog uwch** (*upper pay range*).

- Yn weithredol o Fedi 2018 mae'r Llywodraeth wedi pennu:
  - codiad o 2 %i isafswm yr ystod cyflog uwch;
  - codiad o 2 % i uchafswm yr ystod cyflog uwch.

- Mae'r mwyafrif o ysgolion Cymru wedi sefydlu trefn o **tri phwynt penodol** ar yr ystod cyflog uwch yn gysylltiedig â'r hen Raddfa Gyflog Uwch, gan ddilyn arweiniad yr undebau ac Awdurdodau Lleol (gweler yr Atodiad).

**Mae’r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog o 2% i bawb ar y Ystod Cyflog Uwch.**

- Mae disgwyl i bob ysgol benderfynu ar union broses yr ysgol ar gyfer gwneud cais i fynd ar yr ystod cyflog uwch a beth yw’r meini prawf ar gyfer llwyddiant. Dylid nodi hyn ym mholisi cyflog yr ysgol.
- Mae'r mwyafrif o ysgolion wedi mabwysiadu polisi enghreifftiol yr Awdurdod Lleol.

## Ystod Cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol (*Leading Practitioners*)

- Y pennaeth a’r llywodraethwyr sydd â’r cyfrifoldeb o benderfynu os oes angen swydd o’r fath yn rhan o strwythur staffio’r ysgol ac, os oes, beth yw union gyfrifoldebau’r swydd.
- Mae’n ymddangos bod y mwyafrif o ysgolion yng Nghymru wedi dewis peidio cynnwys swyddi o’r fath yn eu strwythurau staffio.
- Yn weithredol o Fedi 2018, mae'r Llywodraeth wedi pennu:
  - codiad o 2% i isafswm ac uchafswm yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol.

**Mae’r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog O 2% i bawb ar yr Ystod Cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol.**

## Lwfansau Cyfrifoldeb

### CAD (Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu/*TLR*)

- Does dim newid i'r meini prawf ar gyfer Lwfansau CAD 1 a CAD 2. Mae disgwyl i'r cyfrifoldebau fod yn rhai sydd:

  a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu
  b) yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol
  c) yn mynnu bod yr athro yn arwain, yn rheoli ac yn datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu’n arwain ac yn rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm

ch) yn effeithio ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion a neilltuwyd i'r athro

d) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arfer addysgu staff eraill

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn CAD1 mae hefyd angen bod yn rheolwr llinell i nifer sylweddol o bobl.

- Cyflwynodd y Llywodraeth CAD 3 ar 1 Medi 2013, sef lwfans CAD **byr dymor** ar gyfer **prosiectau dros dro**. Mae'n bwysig diffinio cyfrifoldeb dros dro yn ofalus er mwyn peidio â thanseilio gwaith a chyflog athrawon sydd â chyfrifoldebau parhaol.
- Mae rhai o'r meini prawf gorfodol ar gyfer lwfansau CAD 1 a 2 yn berthnasol i CAD 3, sef meini prawf a), b) ac ch) yn y fersiwn Cymraeg o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (DCAAY)), sef a), b) a d) yn y fersiwn Saesneg o'r Ddogfen (SCTPD).
- Yn weithredol o Fedi 2018, mae'r Llywodraeth wedi pennu:
  - codiad o 2% i isafswm ac uchafswm CAD1, CAD 2 a CAD 3.

  Golyga hyn ystodau o:
  - CAD1: £7,833 - £13,288
  - CAD 2: £2,721 - £6,646
  - CAD 3: £543 - £2,683

**Mae'r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog o 2% i bawb sydd â lwfans CAD.**

## Lwfansau Anghenion Addysg Arbennig

Does dim newid i'r trefniadau ar gyfer Lwfansau Anghenion Addysg Arbennig.

- Yn weithredol o Fedi 2018, mae'r Llywodraeth wedi pennu:
  - codiad o 2% i isafswm ac uchafswm yr ystod ar gyfer Lwfansau AAA.

    Golyga hyn ystod o: £2,149 -£4,242

**Mae'r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog o 2% i bawb sydd â lwfans AAA.**

## Cyflog Hanesyddol (Hygludedd Cyflog)

Yn statudol, nid oes unrhyw gyflog hanesyddol yn cyfrif mwyach, h.y. nid oes sicrwydd cyflog pan fydd athro'n symud i weithio mewn ysgol arall neu'n ail gydio'n ei gyrfa ar ôl toriad. Mae hyn yn peryglu lefel cyflog presennol pob athro.

Yng Nghymru, rydym fel undebau, wedi gweithio'n galed i bwyso ar Awdurdodau Lleol i gynnwys yr egwyddor o hygludedd cyflog *(pay portability*) mewn polisïau cyflog enghreifftiol.  Credwn bod y mwyafrif o ysgolion yn gweithredu'r egwyddor hon.

## Trefniadau Cyflog Arweinwyr Ysgol

Mae'r trefniadau ar gyfer pennu cyflog arweinwyr ysgol wedi newid ers 2014. Nid oedd disgwyl newid trefniadau cyflog arweinwyr oedd yn barod mewn swydd cyn Medi 2014 oni bai bod eu cyfrifoldebau'n newid yn sylweddol. Yn hytrach mae'r trefniadau'n weithredol wrth apwyntio arweinwyr ers Medi 2014.

Wrth benderfynu ar ystod cyflog priodol ar gyfer pennaeth, dirprwy neu bennaeth cynorthwyol, rhaid i'r corff perthnasol ystyried holl gyfrifoldebau parhaol y rôl, unrhyw heriau sy'n benodol i'r rôl a phob ystyriaeth berthnasol arall.

Dylai ystod cyflog dirprwy neu bennaeth cynorthwyol ond gorgyffwrdd ag ystod cyflog y pennaeth mewn achosion eithriadol.

Fel yn achos cyflog athrawon dosbarth mae'r llywodraeth nawr yn pennu isafswm ac uchafswm ystod cyflog yn unig.

**Mae'r undebau ar y cyd yn eich cynghori i weithredu codiad cyflog o 1.5 % i bawb ar Ystod Cyflog Grŵp Arweinyddiaeth.**

## Cyflog Pennaeth

Mae'r Adran Addysg yn argymell y camau canlynol ar gyfer dod i benderfyniad am gyflog pennaeth:

**Cam 1**: er mwyn pennu cyflog Pennaeth (a apwyntiwyd ar neu ar ôl Medi 2014), mae angen pennu Grŵp Pennaeth ysgol yn gyntaf, yn seiliedig ar Gyfanswm Sgôr Unedau a gyfrifir wrth ystyried:

- niferoedd disgyblion ym mhob cyfnod allweddol

- niferoedd disgyblion ag AAA/ADY
- niferoedd disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol am hanner diwrnod ar y tro
- a ydy'r pennaeth yn gyfrifol am fwy nag un ysgol?

Bydd y cyfanswm sgôr unedau'n arwain at benderfyniad am Grŵp Pennaeth addas (mae 8 Grŵp Pennaeth).

*Mae'r camau nesaf yn rhoi mwy o bŵer yn nwylo Llywodraethwyr Ysgol i bennu union gyflog y pennaeth.*

**Cam 2**: wrth benderfynu ar ystod cyflog ddangosol / *indicative pay range* ar gyfer y rôl bydd angen ystyried cyd-destun y rôl:

- Pa heriau sydd yn codi o anghenion penodol y disgyblion, e.e. ydy hi'n ardal difreintiedig iawn? A oes nifer uchel o ddisgyblion gydag AAA/ADY neu sydd yn blant mewn gofal, ac ati?
- A oes lefel uchel o her a chymhlethdodau, e.e. bod yn atebol am fwy nag un ysgol neu rheoli ysgol sydd ar nifer o leoliadau?
- A oes cymhlethdodau a heriau sydd yn mynd tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig gan bennaeth ysgol tebyg ei maint?
- A oes atebolrwydd ychwanegol nad yw'n cael ei gydnabod yng ngham cyntaf y broses wrth bennu Grŵp Pennaeth?
- A oes ffactorau allai wneud hi'n anodd denu ymgeiswyr i'r swydd, e.e. lleoliad, arbenigedd?

**Cam 3:** Mae'r ddau gam uchod yn caniatáu dewis ystod cyflog addas; mae **Cam 3** yn arwain at benderfyniad am gyflog cychwynnol.

Mae Cam 3 yn digwydd pan fydd yr ysgol yn barod i apwyntio rhywun i'r swydd - beth fyddai'n addas fel cyflog cychwynnol o ystyried sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd llwyddiannus.

Mae hawl mynd yn uwch nag uchafswm yr ystod Grŵp Pennaeth penodol, ond byddai'n rhaid cael achos busnes da a derbyn cyngor arbenigol er mwyn gwneud hyn.

# Atodiad 1

Ers Medi 2013 mae Llywodraeth y DU wedi:

- dileu'r strwythurau cyflog oedd yn bodoli cyn Medi 2013 a sefydlu ystodau cyflog gydag isafswm ac uchafswm yn unig (yn hytrach na graddfeydd cyflog). Nid yw'r Llywodraeth yn pennu pwyntiau penodol rhwng yr isafswm a'r uchafswm - mae hyn yn benderfyniad i ysgolion unigol;
- gwneud tâl yn ôl perfformiad yn statudol ers penderfyniadau cyflog Medi 2014;
- peidio â chaniatáu codiad cyflog chwyddiant awtomatig i bob athro.
- Gosod mwy o gyfrifoldeb ar ysgwyddau penaethiaid a llywodraethwyr. Mae disgwyl i'r pennaeth wneud argymhellion i'r llywodraethwyr (is-bwyllgor cyflog). Y llywodraethwyr fydd yn dod i benderfyniad ar gyflog athrawon unigol ac ar symud unigolion i fyny'r ystod cyflog, yn seiliedig ar berfformiad.

# Atodiad 2

**Cyflog Athrawon Ysgol 2018-19:  Pwyntiau Graddfa Cyflog (cyngor cyd-undebol)**

Os yw polisi cyflog ysgol yn cynnwys pwyntiau graddfa cyflog sy'n wahanol i'r rheini yn y ddogfen hon, rydym yn cynghori:

- dylai pwyntiau'r Brif Ystod Cyflog gynyddu gan 3.5% o'u gwerthoedd 2017-18
- dylai pwyntiau’r Ystod Cyflog Uwch ac Ymarferwr Arweiniol godi gan 2% o'u gwerthoedd yn 2017-18
- dylai’r pwyntiau lwfansau CAD ac AAA godi 2% o’u gwerthoedd yn 2017-18.

**ATHRAWON DOSBARTH**

| | C & Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 (isaf) | £23,720 | £29,664 | £27,596 | £24,859 |
| 2 | £25,594 | £31,211 | £29,307 | £26,732 |
| 3 | £27,652 | £32,837 | £31,120 | £28,789 |
| 4 | £29,780 | £34,548 | £33,047 | £30,924 |
| 5 | £32,126 | £37,206 | £35,850 | £33,264 |
| 6 (uchaf) | £35,008 | £40,372 | £38,963 | £36,157 |

| | C & Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 (isaf) | £36,646 | £44,489 | £40,310 | £37,758 |
| 2 | £38,004 | £46,676 | £41,801 | £39,113 |
| 3 (uchaf) | £39,406 | £48,244 | £43,348 | £40,520 |

| | C &Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| isafswm | £40,162 | £47,751 | £43,348 | £41,268 |
| uchafswm | £61,055 | £68,652 | £64,245 | £62,164 |

**Nodyn:** Mae isafswm ac uchafswm yr ystod hon gyfwerth ag isafswm yr Ystod Arweinyddiaeth ac i bwynt L18 ar raddfa Ystod Arweinyddiaeth a argymhellir isod. Gallai ysgolion sy'n dymuno defnyddio pwyntiau graddfa cyflog ar yr ystod hon benderfynu felly defnyddio pwyntiau L1 i L18 isod.

## ATHRAWON GRŴP ARWEINYDDIAETH

### YSTOD CYFLOG GRŴP ARWEINYDDIAETH

*Nid yw'r pwyntiau a argymhellir ar yr Ystod Grŵp Arweinyddiaeth yn cyfateb yn uniongyrchol ag uchafswm statudol wyth Ystod Grŵp Pennaeth STPCD. Gweler isod am gyngor ar gymhwyso'r uchafswm statudol ar gyfer Penaethiaid. Cofiwch sicrhau eich bod chi'n defnyddio'r ystod gywir.*

| | C & Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £39,965 | £47,517 | £43,136 | £41,065 |
| 2 | £40,966 | £48,522 | £44,139 | £42,069 |
| 3 | £41,989 | £49,549 | £45,158 | £43,091 |
| 4 | £43,034 | £50,592 | £46,208 | £44,142 |
| 5 | £44,106 | £51,670 | £47,281 | £45,215 |
| 6 | £45,213 | £52,771 | £48,383 | £46,318 |
| 7 | £46,430 | £53,992 | £49,604 | £47,538 |
| 8 | £47,501 | £55,061 | £50,673 | £48,603 |
| 9 | £48,687 | £56,243 | £51,857 | £49,791 |
| 10 | £49,937 | £57,494 | £53,110 | £51,041 |
| 11 | £51,234 | £58,787 | £54,401 | £52,335 |
| 12 | £52,414 | £59,974 | £55,588 | £53,521 |
| 13 | £53,724 | £61,282 | £56,900 | £54,832 |
| 14 | £55,064 | £62,621 | £58,231 | £56,169 |
| 15 | £56,434 | £63,987 | £59,601 | £57,535 |
| 16 | £57,934 | £65,493 | £61,106 | £59,040 |
| 17 | £59,265 | £66,825 | £62,438 | £60,378 |
| 18 | £60,755 | £68,315 | £63,930 | £61,860 |
| 19 | £62,262 | £69,821 | £65,437 | £63,366 |
| 20 | £63,806 | £71,365 | £66,978 | £64,915 |
| 21 | £65,384 | £72,943 | £68,559 | £66,496 |
| 22 | £67,008 | £74,567 | £70,177 | £68,115 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 23 | £68,667 | £76,221 | £71,836 | £69,770 |
| 24 | £70,370 | £77,930 | £73,541 | £71,480 |
| 25 | £72,119 | £79,675 | £75,290 | £73,223 |
| 26 | £73,903 | £81,458 | £77,074 | £75,012 |
| 27 | £75,735 | £83,288 | £78,905 | £76,838 |
| 28 | £77,613 | £85,169 | £80,785 | £78,715 |
| 29 | £79,535 | £87,095 | £82,704 | £80,642 |
| 30 | £81,515 | £89,072 | £84,684 | £82,614 |
| 31 | £83,528 | £91,089 | £86,704 | £84,637 |
| 32 | £85,605 | £93,160 | £88,773 | £86,713 |
| 33 | £87,732 | £95,290 | £90,906 | £88,840 |
| 34 | £89,900 | £97,459 | £93,073 | £91,008 |
| 35 | £92,135 | £99,694 | £95,306 | £93,243 |
| 36 | £94,416 | £101,971 | £97,584 | £95,521 |
| 37 | £96,763 | £104,325 | £99,936 | £97,869 |
| 38 | £99,158 | £106,713 | £102,330 | £100,263 |
| 39 | £101,574 | £109,129 | £104,743 | £102,676 |
| 40 | £104,109 | £111,671 | £107,283 | £105,218 |
| 41 | £106,709 | £114,273 | £109,883 | £107,816 |
| 42 | £109,383 | £116,940 | £112,551 | £110,491 |
| 43 | £111,007 | £118,490 | £114,147 | £112,105 |

**YSTODAU CYFLOG GRŴP PENAETHIAID - CYFYNGIADAU STPCD**

** Nid yw'r uchafswm statudol yn y DdCAAY (STPCD) ar gyfer wyth Ystod Grŵp Penaethiaid bellach yn cyfateb â'r pwyntiau graddfa a argymhellir ar yr Ystod Grŵp Arweinyddiaeth, na'r pwynt cyfatebol ble y mae'n disgyn yng nghanol yr ystod, oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i rewi'r uchafswm hynny yn 2015. Rydym yn cynghori ar y cyd mai'r unig bryd y dylid defnyddio'r uchafswm statudol yw pan mai dyna yw pwynt uchaf ystod unigol y pennaeth ac nad yw'r disgresiwn i fynd yn uwch nag uchafswm yr ystod wedi'i ddefnyddio.*

| | C&Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Fewnol | Ardal Llundain Allanol | Ardal yr Ymylon |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp 1 | £60,153 | £67,638 | £63,297 | £61,247 |
| Grŵp 2 | £64,736 | £72,221 | £67,880 | £65,837 |
| Grŵp 3 | £69,673 | £77,158 | £72,813 | £70,771 |
| Grŵp 4 | £74,985 | £82,463 | £78,123 | £76,007 |
| Grŵp 5 | £82,701 | £90,186 | £85,845 | £83,799 |
| Grŵp 6 | £91,223 | £98,706 | 94,362 | £92,320 |
| Grŵp 7 | £100,568 | £108,048 | £103,706 | £101,659 |
| Grŵp 8 | £111,007 | £118,490 | £114,147 | £112,105 |

## GRŴP PENNAETH UN

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) £ | Ardal Llundain Ganol £ | Ardal Cyrion Llundain £ | Ardal Ymylol £ |
|---|---|---|---|---|
| 6 | 45.213 | 52.771 | 48.383 | 46.318 |
| 7 | 46.399 | 53.992 | 49.604 | 47.538 |
| 8 | 47.501 | 55.061 | 50.673 | 48.603 |
| 9 | 48.687 | 56.243 | 51.857 | 49.791 |
| 10 | 49.937 | 57.494 | 53.110 | 51.041 |
| 11 | 51.234 | 58.787 | 54.401 | 52.335 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12 | 52.414 | 59.974 | 55.588 | 53.521 |
| 13 | 53.724 | 61.282 | 56.900 | 54.832 |
| 14 | 55.065 | 62.621 | 58.231 | 56.169 |
| 15 | 56.434 | 63.987 | 59.601 | 57.535 |
| 16 | 57.934 | 65.493 | 61.106 | 59.040 |
| 17 | 59.265 | 66.825 | 62.438 | 60.378 |
| 18 | 60.153 | 67.638 | 63.297 | 61.247 |

**GRŴP PENNAETH DAU**

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 8 | 47.501 | 55.061 | 50.673 | 48.603 |
| 9 | 48.687 | 56.243 | 51.857 | 49.791 |
| 10 | 49.937 | 57.494 | 53.110 | 51.041 |
| 11 | 51.234 | 58.787 | 54.401 | 52.335 |
| 12 | 52.414 | 59.974 | 55.588 | 53.521 |
| 13 | 53.724 | 61.282 | 56.900 | 54.832 |
| 14 | 55.065 | 62.621 | 58.231 | 56.169 |
| 15 | 56.434 | 63.987 | 59.601 | 57.535 |
| 16 | 57.934 | 65.493 | 61.106 | 59.040 |
| 17 | 59.265 | 66.825 | 62.438 | 60.378 |
| 18 | 60.755 | 68.315 | 63.930 | 61.403 |
| 19 | 62.262 | 69.821 | 65.437 | 63.366 |
| 20 | 63.806 | 71.365 | 66.978 | 64.915 |
| 21* | 64.736 | 72.221 | 67.880 | 65.837 |

## GRŴP PENNAETH TRI

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 11 | 51.234 | 58.787 | 54.401 | 52.335 |
| 12 | 52.414 | 59.974 | 55.588 | 53.521 |
| 13 | 53.724 | 61.282 | 56.900 | 54.832 |
| 14 | 55.065 | 62.621 | 58.231 | 56.169 |
| 15 | 56.434 | 63.987 | 59.601 | 57.535 |
| 16 | 57.934 | 65.493 | 61.106 | 59.040 |
| 17 | 59.265 | 66.825 | 62.438 | 60.378 |
| 18 | 60.755 | 68.315 | 63.930 | 61.403 |
| 19 | 62.262 | 69.821 | 65.437 | 63.366 |
| 20 | 63.806 | 71.365 | 66.978 | 64.915 |
| 21 | 65.384 | 72.943 | 68.559 | 66.496 |
| 22 | 67.008 | 74.567 | 70.177 | 68.115 |
| 23 | 68.667 | 76.221 | 71.836 | 69.770 |
| 24* | 69.673 | 77.158 | 72.813 | 70.771 |

## GRŴP PENNAETH PEDWAR

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 14 | 55.064 | 62.621 | 58.231 | 56.169 |
| 15 | 56.434 | 63.987 | 59.601 | 57.535 |
| 16 | 57.934 | 65.493 | 61.106 | 59.040 |
| 17 | 59.265 | 66.825 | 62.438 | 60.378 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 60.755 | 68.315 | 63.930 | 61.403 |
| 19 | 62.262 | 69.821 | 65.437 | 63.366 |
| 20 | 63.806 | 71.365 | 66.978 | 64.915 |
| 21 | 65.384 | 72.943 | 68.559 | 66.496 |
| 22 | 67.008 | 74.567 | 70.177 | 68.115 |
| 23 | 68.667 | 76.221 | 71.836 | 69.770 |
| 24 | 70.370 | 77.390 | 73.541 | 71.480 |
| 25 | 72.119 | 79.675 | 75.290 | 73.223 |
| 26 | 73.903 | 81.458 | 77.074 | 75.012 |
| 27* | 74.985 | 82.463 | 78.123 | 76.077 |

## GRŴP PENNAETH PUMP

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 60.755 | 68.315 | 63.930 | 61.860 |
| 19 | 62.262 | 69.821 | 65.437 | 63.366 |
| 20 | 63.806 | 71.365 | 66.978 | 64.915 |
| 21 | 65.384 | 72.943 | 68.559 | 66.496 |
| 22 | 67.008 | 74.567 | 70.177 | 68.115 |
| 23 | 68.667 | 76.221 | 71.836 | 69.770 |
| 24 | 70.370 | 77.390 | 73.541 | 71.480 |
| 25 | 72.119 | 79.675 | 75.290 | 73.223 |
| 26 | 73.903 | 81.458 | 77.074 | 75.012 |
| 27 | 75.735 | 83.288 | 78.905 | 76.838 |
| 28 | 77.613 | 85.169 | 80.785 | 78.715 |
| 29 | 79.535 | 87.095 | 82.704 | 80.642 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 30 | 81.515 | 89.072 | 84.684 | 82.614 |
| 31* | 82.701 | 90.186 | 85.845 | 83.799 |

**GRŴP PENNAETH CHWECH**

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 21 | 65,384 | 72,943 | 68,559 | 66,496 |
| 22 | 67.008 | 74.567 | 70.177 | 68.115 |
| 23 | 68,667 | 76,221 | 71,836 | 69,770 |
| 24 | 70.370 | 77.390 | 73.541 | 71.480 |
| 25 | 72,119 | 79,675 | 75,290 | 73,223 |
| 26 | 73.903 | 81.458 | 77.074 | 75.012 |
| 27 | 75,735 | 83,288 | 78,905 | 76,838 |
| 28 | 77.613 | 85.169 | 80.785 | 78.715 |
| 29 | 79,535 | 87,095 | 82,704 | 80,642 |
| 30 | 81.515 | 89.072 | 84.684 | 82.614 |
| 31 | 83,528 | 91,089 | 86,704 | 84,637 |
| 32 | 85.605 | 93.160 | 88.773 | 86.713 |
| 33 | 87,732 | 95,290 | 90,906 | 88,840 |
| 34 | 89.900 | 97.459 | 93.073 | 91.008 |
| 35* | 91,223 | 98,706 | 94,362 | 92,320 |

**GRŴP PENNAETH SAITH**

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 24 | 70.370 | 77.930 | 73.541 | 71.480 |
| 25 | 72.119 | 79.675 | 75.290 | 73.223 |
| 26 | 73.903 | 81.458 | 77.074 | 75.012 |
| 27 | 75.735 | 83.288 | 78.905 | 76.838 |
| 28 | 77.613 | 85.169 | 80.785 | 78.715 |
| 29 | 79.535 | 87.095 | 82.704 | 80.642 |
| 30 | 81.515 | 89.072 | 84.684 | 82.614 |
| 31 | 83.528 | 91.089 | 86.704 | 84.637 |
| 32 | 85.605 | 93.160 | 88.773 | 86.713 |
| 33 | 87.732 | 95.290 | 90.906 | 88.840 |
| 34 | 89.900 | 97.459 | 93.073 | 91.008 |
| 35 | 92.135 | 99.694 | 95.306 | 93.243 |
| 36 | 94.416 | 101.971 | 97.584 | 95.521 |
| 37 | 96.763 | 104.325 | 99.936 | 97.869 |
| 38 | 99.158 | 106.713 | 102.330 | 100.263 |
| 39* | 100.568 | 108.048 | 103.706 | 101.659 |

## GRŴP PENNAETH WYTH

| | C & Ll (ac eithrio Llundain Fwyaf) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 28 | 77.613 | 85.169 | 80.785 | 78.715 |
| 29 | 79.535 | 87.095 | 82.704 | 80.642 |
| 30 | 81.515 | 89.072 | 84.684 | 82.614 |
| 31 | 83.528 | 91.089 | 86.704 | 84.637 |
| 32 | 85.605 | 93.160 | 88.773 | 86.713 |
| 33 | 87.732 | 95.290 | 90.906 | 88.840 |
| 34 | 89.900 | 97.459 | 93.073 | 91.008 |
| 35 | 92.135 | 99.694 | 95.306 | 93.243 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 36 | 94.416 | 101.971 | 97.584 | 95.521 |
| 37 | 96.763 | 104.325 | 99.936 | 97.869 |
| 38 | 99.158 | 106.713 | 102.330 | 100.263 |
| 39 | 101.574 | 109.129 | 104.743 | 102.676 |
| 40 | 104.109 | 111.671 | 107.283 | 105.218 |
| 41 | 106.709 | 114.273 | 109.883 | 107.816 |
| 42 | 109.383 | 116.940 | 112.551 | 110.491 |
| 43* | 111.007 | 118.490 | 114.147 | 112.105 |

## ATHRAWON HEB GYMHWYSO

### YSTOD CYFLOG ATHRO HEB GYMHWYSO

| | C & Ll (ac eithrio Ardal Llundain) | Ardal Llundain Ganol | Ardal Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £17,208 | £21,641 | £20,441 | £18,339 |
| 2 | £19,210 | £23,642 | £22,443 | £20,338 |
| 3 | £21,210 | £25,644 | £24,445 | £22,340 |
| 4 | £23,212 | £27,644 | £26,450 | £24,341 |
| 5 | £25,215 | £29,644 | £28,450 | £26,342 |
| 6 | £27,216 | £31,644 | £30,452 | £28,343 |

### LWFANSAU (CAD ac AAA)

Yn weithredol o Fedi 2018, mae'r Llywodraeth wedi pennu:

- codiad o 2% i isafswm ac uchafswm CAD1, CAD 2 a CAD 3.

**Rydym eich argymell i weithredu codiad cyflog o 2% o'u gwerthoedd yn 2017-18 i bob pwynt lwfans CAD ac AAA.**

**Am wybodaeth bellach am gyflog ac amodau gwaith gweler:**

Cyngor ar y cyd gan UCAC, ASCL, NAHT, NEU, VOICE:

https://www.ucac.cymru/images/PDF/1708_CyngorCydundebol_CyflogauAthrawon.pdf

Y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2018:

https://www.gov.uk/government/publications/school-teachers-pay-and-conditions

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Dilwyn Roberts Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

**Diweddarwyd Hydref 2018**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru